**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Pwyllgor y Gronfa Bensiwn

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 12 Tachwedd 2020 am 10.00am**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd C E Lloyd (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| P Downing | D G Sullivan | W G Thomas |
| J P Curtice | M B Lewis | |

**Aelod Cyfetholedig o Gyngor Castell-nedd Port Talbot**
P A Rees

**Ymgynghorwyr**

| | |
|---|---|
| D Morton | Ymgynghorydd - Hymans Robertson |
| N Jellema | Ymgynghorydd - Hymans Robertson |

**Arsyllwr**

| | |
|---|---|
| I Guy | Cadeirydd y Bwrdd Pensiwn Lleol |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Karen Cobb | Uwch-gyfrifydd |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Jeffrey Dong | Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog Adran 151. |
| Stephanie Williams | Prif Gyfreithiwr |
| Carolyn Isaac | Cyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb - dim**

---

## 1 Ethol Is-gadeirydd ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2020-2021

**Penderfynwyd** ethol y Cynghorydd P Downing fel Is-gadeirydd ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2020-2021.

## 2 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

Y Cynghorydd J P Curtice - yr agenda yn ei chyfanrwydd - aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

Y Cynghorydd P Downing - yr agenda yn ei chyfanrwydd - mae fy mrawd yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

Y Cynghorydd M B Lewis - yr agenda yn ei chyfanrwydd - aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

Y Cynghorydd C E Lloyd - yr agenda yn ei chyfanrwydd - aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

Y Cynghorydd P Rees - yr agenda yn ei chyfanrwydd - mae fy merch-yng-nghyfraith yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

Y Cynghorydd D G Sullivan - yr agenda yn ei chyfanrwydd - mae fy merch-yng-nghyfraith yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac rwy'n derbyn pensiwn a weinyddir gan gyn-Gyngor Dyfed - personol.

Y Cynghorydd W G Thomas - yr agenda yn ei chyfanrwydd - aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

**Arsyllwr:**

I Guy - Cadeirydd y Bwrdd Pensiwn Lleol - yr agenda yn ei chyfanrwydd - aelod o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

**Swyddogion:**

K Cobb – yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

J Dong – yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

C Isaac – yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

J Parkhouse – yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

S Williams – yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

**3 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Gronfa Bensiwn a gynhaliwyd ar
10 Medi 2020 fel cofnod cywir.

## 4 Adroddiad Archwilio Cyfrifon – Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe

Cyflwynodd Jason Garcia ac Andrea Williams (Archwilio Cymru) yr Adroddiad Archwilio Cyfrifon – Dinas a Sir Abertawe a oedd yn crynhoi prif ganfyddiadau'r archwiliad o gyfrifon ar gyfer 2019-20.

Esboniwyd bod pandemig COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar bob agwedd ar ein cymdeithas ac roedd yn parhau i wneud hynny. Roedd yn ofynnol yn ôl y gyfraith i'r cyngor baratoi cyfrifon ac roedd yn enghraifft o ymrwymiad y tîm cyfrifon bod y cyngor wedi llwyddo i wneud hynny eleni yn wyneb yr heriau a gafwyd yn sgíl y pandemig hwn. Roedd Archwilio Cymru yn hynod ddiolchgar am broffesiynoldeb y tîm wrth eu cefnogi i gwblhau ein harchwiliad mewn amgylchiadau mor anodd.

Derbyniodd Archwilio Cymru y datganiad cyfrifon drafft ar 10 Mehefin 2020, fel y cytunwyd gyda'r Gronfa Bensiwn, a derbyniodd set o gyfrifon ar 2 Medi 2020 yn dilyn rhai addasiadau gwerthuso asedau. Derbyniwyd y fersiwn hon fel y set ddrafft o gyfrifon a fyddai'n cael eu harchwilio gan eu bod wedi'u derbyn cyn i Archwilio Cymru ddechrau ar eu gwaith archwilio.

Darparwyd effaith y pandemig yn Arddangosyn 1. Amlinellwyd bod Archwilio Cymru yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon eleni unwaith y bydd yr Awdurdod wedi darparu'r Llythyr Sylwadau yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn Atodiad 1. Nodwyd yr adroddiad archwilio arfaethedig yn Atodiad 2.

Ychwanegwyd na nodwyd unrhyw gamddatganiadau yn y datganiadau ariannol a oedd dal heb eu cywiro. Roedd camddatganiadau yn y cyfrifon i ddechrau a oedd wedi'u cywiro gan y rheolwyr. Darparwyd y gwelliannau mwyaf arwyddocaol yn Atodiad 3. Roedd Arddangosyn 2 yn cynnwys sylwebaeth ar y materion mwy arwyddocaol y daeth Archwilio Cymru ar eu traws ac y bu'n gweithio gyda'r rheolwyr i'w datrys.

Dywedodd Jeff Dong, Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog Adran 151 fod y cyngor yn gwerthfawrogi'n fawr yr hyblygrwydd a ddangoswyd gan Archwilio Cymru, a gwnaeth sylwadau ar y ffordd gadarnhaol iawn yr oedd y ddau sefydliad wedi gweithio gyda'i gilydd.

Dywedodd y Cadeirydd fod yr adroddiad yn gyflawniad eithriadol gan y cyngor a chanmolodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog Adran 151, Karen Cobb, yr Uwch-gyfrifydd a'r staff Cyllid am eu gwaith.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r Adroddiad Archwilio Cyfrifon.

## 5 Adroddiad am doriadau (Er gwybodaeth)

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog Adran 151 adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn darparu manylion unrhyw doriadau a gafwyd yn y cyfnod hwn yn unol â'r polisi Adrodd am Doriadau.

Yn Atodiad A darparwyd manylion y toriadau a gafwyd ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor y Gronfa Bensiwn ym mis Medi 2020. Amlygwyd manylion y toriadau a'r camau gweithredu a gymerwyd gan reolwyr.

## 6 Gweinyddu Pensiynau - Adolygiad o Adnoddau Gweinyddu'r Adran Bensiwn

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn arfarnu'r lefelau staffio presennol o fewn y Tîm Gweinyddu Pensiynau, gyda'r nod o fynd i'r afael â heriau gweinyddu cynlluniau a newidiadau rheoleiddiol i sicrhau bod rhwymedigaethau cyfreithiol yn cael eu bodloni.

Amlinellwyd manylion y cefndir a heriau'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol a darparwyd cynigion adnoddau.

**Penderfynwyd** y dylid cymeradwyo'r cynigion adnoddau a'r goblygiadau ariannol cysylltiedig a amlinellir ym mharagraff 5.5 a bod y Dirprwy Swyddog Adran 151/Rheolwr Pensiwn yn cael eu hawdurdodi i weithredu'r newidiadau ar unwaith.

## 7 Diwygio'r Taliad Ymadael - Ymateb i Ymgynghoriad y Llywodraeth

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn darparu ymateb 'er gwybodaeth' yr Awdurdod Gweinyddu i ymgynghoriad y Llywodraeth ar Ddiwygio'r Taliad Ymadael.

Esboniwyd bod yr ymateb, y bu'n rhaid ei ddarparu erbyn 4 Tachwedd 2020, wedi'i anfon ymlaen gyda chymeradwyaeth Cadeirydd y Pwyllgor a Chadeirydd y Bwrdd Pensiynau Lleol.

Darparwyd llythyr y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) yn amlinellu eu safbwynt yn Atodiad 1 a darparwyd ymateb yr Awdurdod Gweinyddu yn Atodiad 2.

## 8 Gwahardd y Cyhoedd

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhelliad/argymhellion yr adroddiad ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitem(au) f/busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor brawf budd y cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd prawf budd y cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 9 Diweddariad am Bartneriaeth Pensiwn Cymru (Er gwybodaeth)

Darparodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog Adran 151 adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn rhoi'r diweddaraf i'r Pwyllgor am gynnydd Partneriaeth Pensiwn Cymru.

Roedd Atodiad 1 yn darparu'r adroddiad cynnydd a diweddaru a ddarparwyd gan weithredwr y Cynllun Contractiol Awdurdodedig (CCA), Link Asset Services.

## 10 Diweddariad am y Strategaeth Buddsoddi (Er gwybodaeth)

Darparodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog Adran 151 adroddiad diweddaru a oedd yn amlinellu cynnydd gweithredu'r strategaeth buddsoddi, a gymeradwywyd yn flaenorol gan Bwyllgor y Gronfa Bensiwn.

Darparodd Atodiad 1 adroddiad i'r cyngor ar 4 Tachwedd 2020 – 'Sut mae'r Gronfa Bensiwn yn mynd i'r afael â risg newid yn yr hinsawdd yn ei phortffolio buddsoddi'.

**Penderfynwyd** y byddai Pwyllgor y Gronfa Bensiwn yn nodi ac yn cymeradwyo:

1) yr ymrwymiadau cyfalaf diwygiedig yn 2.1;

2) yr adroddiad diweddaru yn Atodiad 1.

## 11 Adroddiad Ymgynghorwyr Buddsoddi (Er gwybodaeth)

Darparodd yr Ymgynghorwr Buddsoddi, David Morton a Nick Jellema, adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn cyflwyno Adroddiad Monitro Buddsoddiadau Chwarter 3 2020.

Nodwyd cynnwys yr adroddiad gan y pwyllgor a gofynnwyd cwestiynau amrywiol, ac fe'u hatebwyd yn briodol. Diolchwyd i'r Ymgynghorwyr Buddsoddi am yr adroddiad.

## 12 Crynodeb Buddsoddi (Er gwybodaeth)

Rhoddodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog Adran 151 adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn cynnwys y perfformiad buddsoddi ar gyfer y chwarter, y flwyddyn a'r 3 blynedd a ddaeth i ben ar 30 Medi 2020.

Atodwyd crynodebau buddsoddi chwarterol y Gronfa Bensiwn ar gyfer y chwarter, y flwyddyn a'r 3 blynedd a ddaeth i ben ar 30 Medi 2020 yn Atodiad 1.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.10pm

**Cadeirydd**